



# Theatr Genedlaethol Cymru

## Safonau'r Iaith Gymraeg - Adroddiad Blynyddol 2021-22

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i'r holl rydym yn ei wneud fel cwmni, a hybu a datblygu'r celfyddydau trwy gyfrwng y Gymraeg yw'n prif hamcan fel elusen.

Mae'r cwmni yn gweithredu yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae holl gyflogeion y cwmni yn rhugl yn y Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, parhaodd Theatr Genedlaethol Cymru i gynnal y 168 Safon sydd yn berthnasol i'w gweithrediad a'i gwasanaeth. Mae'r cwmni yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chyflawni'r gweithgaredd canlynol yn benodol:

### Personél

Cymraeg yw prif iaith y cwmni, a'r iaith weithredol yn fewnol, ac felly mae pob aelod o'r staff craidd yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg yn rhugl. Roedd y cwmni yn cyflogi 15 aelod o staff craidd, ar gyfartaledd, yn ystod 2021/22.

Hysbysebwyd pedair swydd cyflogedig yn ystod y cyfnod hwn a phob un ohonynt yn gofyn am sgiliau Cymraeg lefel uchel, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Cyflogwyd 176 o weithwyr llawrydd yn ystod y cyfnod, yn cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau, o artistiaid i rheolwyr llwyfan, o actorion i ddylunwyr, a mwy. O'r 176, roedd 137 yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg ac 19 yn nodi eu bod yn dysgu Cymraeg, sy'n gyfanswm o 156.

Cydweithiwyd unwaith eto yn 2021/22 gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Chanolfan Nant Gwrtheyrn ar gynllun Hybu Hyder. Yn ystod 2020/21 fe ddaeth i'r amlwg fod diffyg hyder yn y Gymraeg yn rhwystr i rai artistiaid a gweithwyr theatr rhag eu cyflwyno eu hunain i'r cwmni ar gyfer darpar gyflogaeth, neu gynnig syniadau creadigol iddo. Trafodwyd hyn gyda Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) a lluniwyd gynllun peilot er mwyn rhoi cyfleoedd i weithwyr llawrydd ym maes y celfyddydau perfformio i fynychu cyrsiau datblygu sgiliau iaith, a derbyn tâl am eu hamser, yn ogystal â derbyn yr hyfforddiant am ddim. Estynnwyd y cynllun peilot i 2021/22 a chynhigiwyd cyfle arall i weithwyr llawrydd celfyddydol i fynychu'r cyrsiau Cymraeg Gwaith. Roedd y cynllun peilot yn cael ei ystyried yn un llwyddiannus ac ers hynny mae CCC wedi penodi Cydlynedd Dysgu Cymraeg i ymgymryd â'r gwaith yma. Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn parhau i gydweithio gyda CCC i gynnig cyfleoedd gwaith fel dilyniant i'r rhai sy'n mynychu'r cyrsiau.

Mae holl ymddiriedolwyr Theatr Genedlaethol Cymru yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

### Hyfforddiant

- Cynigiwyd cyrsiau gloywi iaith i aelodau staff sy'n dymuno cefnogaeth ychwanegol.

- Ni wnaeth unrhyw aelod o staff fanteisio ar y cynnig hwn yn ystod 2021/22.

### **Gweinyddiaeth**

- Mae holl bolisiau, ffurflenni a chanllawiau Theatr Genedlaethol Cymru, gan gynnwys y Llawlyfr Staff, ar gael yn y Gymraeg
- Mae pob arwydd cyhoeddus ar gyfer cynyrchiadau Theatr Genedlaethol Cymru yn ddwyieithog
- Cyhoeddir y Cyfrifon Statudol blynyddol yn y Gymraeg a'u darparu i'r cyhoedd drwy wefan y cwmni ([www.theatr.cymru](http://www.theatr.cymru))

### **Cyfathrebu**

- Caiff holl waith cyfathrebu y cwmni (gan gynnwys taflenni hyrwyddo, rhaglenni sioeau, posterï ac e-byst) ei ddarparu yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae gwefan Theatr Genedlaethol Cymru yn hollol ddwyieithog.
- Caiff negeseuon eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y cwmni (sef Facebook, Twitter ac Instagram) yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae capsïynau dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn dilyn) ar gael ar bob fideo hyrwyddo gan y cwmni.
- Anfonir datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg yn gyntaf, wedi eu dilyn gan y Saesneg.
- Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr a phrawf-ddarllenwyr Cymraeg llawrydd yn gyson i sicrhau cywirdeb a safon yn ein gwaith cyfathrebu.

### **Cwynion/Ymholiadau**

- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chyflenwad Safonau'r Iaith Gymraeg
- Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn croesawu adborth ac ymholiadau ynglŷn â'r iaith Gymraeg.